

» Darganfod mwy am **gyfyngiadau lleol y coronafeirws**

Dilynwch y cyngor ar gyfer y **coronafeirws (COVID-19)**

Cuddio 

Hafan > **Coronafeirws (COVID-19)** > **Addysg a gofal plant: coronafeirws** > **Ysgolion: coronafeirws** > **Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion: coronafeirws** >

Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws [HTML]

CANLLAWIAU

Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws

Cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 3 Gorffennaf 2020

Cynnwys

Disgrifiad

Ymgynghori

Cyhoeddi cynigion statudol

Adroddiadau ymgynghori

Hysbysiadau statudol

Adroddiadau Gwrthwynebu

Hysbysiad o'r penderfyniad

Hyd yr hysbysiad

Disgrifiad

Mae'r canllawiau hyn yn anstatudol ac yn egluro'r newidiadau dros dro i rai o ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Maent hefyd yn rhoi arweiniad ar ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19).

Mae'r holl ofynion eraill yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn dal i fod yn gymwys.

Mae Deddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n ymwneud ag atal a rheoli lledaeniad y coronafeirws mewn ysgolion, sefydliadau addysg eraill a lleoliadau gofal plant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pwerau i wneud hysbysiadau sy'n dileu neu'n llacio darpariaethau statudol dros dro.

Gwneir y Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod a all osod gofynion a chynnwys canllawiau mewn perthynas â chynigion trefniadaeth ysgolion ar y canlynol (a elwir yn y Cod yn "gyrff perthnasol"):

- Gweinidogion Cymru
- Awdurdodau lleol
- Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir
- Hyrwyddwyr cynigion i sefydlu ysgolion gwirfoddol

Ers 20 Mawrth 2020, mae ysgolion wedi bod ar agor ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol yn unig. Gan mai niferoedd bach o blant sy'n mynychu'r ysgolion hyn, mae awdurdodau lleol wedi nodi ei bod yn fwy effeithiol yn weithredol iddynt ddarparu 'Hybiau' ar gyfer y plant hyn gyda thua thraean o ysgolion yng Nghymru ar agor at y diben hwn.

Erbyn hyn, mae ysgolion yn bwriadu cynyddu eu gweithrediadau o 29 Mehefin 2020 er mwyn galluogi dysgwyr i ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf. Nifer cyfyngedig o ddysgwyr fydd yn mynychu'r ysgol oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol ac mae'n bosibl, mewn rhai ysgolion, na fydd sesiynau ar gyfer unrhyw ddisgyblion ar rai diwrnodau.

Rydym yn cydnabod, lle mae ysgol ar gau nawr neu lle bydd ar gau yn dyfodol oherwydd effaith y coronafeirws, na fydd awdurdodau lleol na chynigwyr eraill o bosibl yn gallu cydymffurfio â'r gofyniad yn y Cod i gyhoeddi dogfennau ymgynghori a hysbysiadau statudol ar un o ddiwrnodau ysgol yr ysgolion yr effeithir arnynt ac i sicrhau bod nifer penodol o ddiwrnodau'r cyfnod ymgynghori neu'r cyfnod gwrthwynebu yn ddiwrnodau ysgol.

Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol honno. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu'n sesiwn prynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud **Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020** sy'n ychwanegu darpariaethau penodol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion at Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws. Rydym wedi gwneud **hysbysiad statudol** sy'n addasu rhai o'r gofynion yn y Cod dros dro er mwyn caniatáu i gynigion trefniadaeth ysgolion barhau i fynd rhagddynt yng nghyd-destun y cyfyngiadau sydd ar waith mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.

Er bod rhai o'r paragraffau yn y Cod wedi'u haddasu dros dro, mae'r mwyafrif helaeth o'r gofynion yn y Cod yn dal i fod yn briodol a rhaid parhau i gydymffurfio â nhw.

Ymgynghori

Mae paragraff 3.4 o'r Cod (Dogfen ymgynghori) yn nodi bod yn rhaid i ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi ar un o ddiwrnodau ysgol yr ysgol neu'r ysgolion y mae'r cynnig yn ymwneud â hi/nhw, a bod yn rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i'r ymgynghoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Diwrnod ysgol yw unrhyw ddiwrnod pan fydd sesiwn ysgol yn yr ysgol. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn bore neu'n sesiwn prynhawn, felly mae diwrnod ysgol yn golygu unrhyw ddiwrnod pan fydd yr ysgol yn cyfarfod am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod.

Rydym wedi addasu paragraff 3.4 o'r Cod. O ran paragraff 3.4, bydd unrhyw gyfeiriadau at "ddiwrnod ysgol" yn cynnwys diwrnod pan fyddai sesiwn ysgol wedi'i chynnal pe na bai cyfyngiad ar ddisgyblion rhag dod i'r ysgol mewn perthynas â'r coronafeirws.

Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc

Mae paragraff 3.5 o'r Cod yn nodi bod yn rhaid i gynigwyr wneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol yr effeithir arni. Rhaid i hyn cynnwys ymgynghoriad â chynghorau'r ysgolion dan sylw o leiaf. Rhaid i gyrff llywodraethu helpu i hwyluso'r agwedd hon ar yr ymgynghoriad. O ystyried y cyfyngiadau presennol ar gynulliadau o fwy na 2 o bobl a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol, mae'n bosibl na fydd modd i gynghorau ysgolion gyfarfod.

Er y byddai cynigwyr yn gallu gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn effeithio arni, e.e. drwy lunio a dosbarthu fersiwn o'r ddogfen ymgynghori sy'n briodol i oedran y plant a'r bobl ifanc y mae'r cynigion yn effeithio arnynt, ni fyddai'r gallu i ymgynghori â Chyngor yr Ysgol 'man lleiaf' yn opsiwn am y tro. Dylai'r dyletswyddau a osodir ar y cynigiwr o dan baragraff 3.5 (ymgynghori â phlant a phobl ifanc) gael eu trin fel pe baent wedi'u cyflawni os yw'r person wedi gwneud ymdrechion rhesymol i gyflawni'r ddyletswydd.

Cyhoeddi cynigion statudol

Os, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd y cynigiwr yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad statudol a threfnu cyfnod 28 diwrnod pan all unrhyw un wrthwynebu. Mae paragraff 4.1 o'r Cod yn nodi bod yn rhaid cyhoeddi'r hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol, a bod yn rhaid i'r cyfnod gwrthwynebu gynnwys 15 diwrnod ysgol (yn ogystal â'r diwrnod cyhoeddi).

Mae'r hysbysiad yn addasu paragraff 4.1 o'r Cod dros dro fel bod bydd unrhyw gyfeiriadau at "ddiwrnod ysgol" yn cynnwys diwrnod pan fyddai sesiwn ysgol wedi'i chynnal pe na bai cyfyngiad ar ddisgyblion rhag dod i'r ysgol mewn perthynas â'r coronafeirws.

Mae'r gofynion eraill yn y Cod yn dal i fod yn gymwys. Er enghraifft, bydd yn ofynnol o hyd i gynigwyr gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled a ffurf electronig ar eu gwefan i sicrhau bod copïau caled ar gael ar gais. Byddai'n ofynnol o hyd iddynt roi gwybod i 'ymgynghoreion statudol' drwy lythyr neu e-bost fod y ddogfen ymgynghori ar gael ac y gallant, os ydynt yn dymuno, gael copi caled o'r ddogfen ymgynghori ar gais.

Adroddiadau ymgynghori

Bydd yn ofynnol o hyd i gynigiwr gyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan neu wefan yr awdurdod lleol perthnasol, o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol a sicrhau bod copïau caled ar gael ar gais cyn bod unrhyw gynnig yn cael ei gyhoeddi. Bydd yn ofynnol o hyd i gynigwyr sicrhau y tynnir sylw at unrhyw farn a fynegir gan y plant a'r bobl ifanc y bydd y cynigion yn effeithio arnynt yn yr adroddiad ymgynghori a sicrhau bod yr adroddiad ar gael iddynt. Bydd yn ofynnol o hyd i gynigiwr roi gwybod i'r 'ymgynghoreion statudol' drwy lythyr neu e-bost fod yr adroddiad ymgynghori ar gael.

Hysbysiadau statudol

Bydd yn ofynnol o hyd i gynigwyr gyhoeddi eu cynnig ar eu gwefan neu wefan yr awdurdod lleol drwy hysbysiad statudol a threfnu cyfnod 28 diwrnod pan all unrhyw un wrthwynebu. Bydd yn ofynnol o hyd i gynigwyr sicrhau y tynnir sylw at unrhyw farn a fynegir gan y plant a'r bobl ifanc y bydd y cynigion yn effeithio arnynt yn yr adroddiad ymgynghori a sicrhau bod yr adroddiad ar gael iddynt. Bydd yn ofynnol o hyd i'r cynigiwr roi gwybod i'r 'ymgynghoreion statudol' drwy lythyr neu e-bost fod yr adroddiad ymgynghori ar gael.

Mae'r hysbysiad yn addasu paragraff 4.1 o'r Cod dros dro fel bod bydd unrhyw gyfeiriadau at "ddiwrnod ysgol" yn cynnwys diwrnod pan fyddai sesiwn ysgol wedi'i chynnal pe na bai cyfyngiad ar ddisgyblion rhag dod i'r ysgol mewn perthynas â'r coronafeirws.

Mae'r gofynion eraill yn y Cod yn dal i fod yn gymwys. Er enghraifft, bydd yn ofynnol o hyd i gynigwyr gyhoeddi dogfen ymgynghori ar ffurf copi caled a ffurf electronig ar eu gwefan i sicrhau bod copïau caled ar gael ar gais. Byddai'n ofynnol o hyd iddynt roi gwybod i 'ymgynghoreion statudol' drwy lythyr neu e-bost fod y ddogfen ymgynghori ar gael ac y gallant, os ydynt yn dymuno, gael copi caled o'r ddogfen ymgynghori ar gais.

Adroddiadau Gwrthwynebu

Bydd yn ofynnol o hyd i gynigwyr gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu a'u hymateb ar eu gwefan, sicrhau bod copïau caled ar gael ar gais a rhoi gwybod i 'ymgynghoreion statudol' drwy lythyr neu e-bost fod yr Adroddiad Gwrthwynebu ar gael.

Hysbysiad o'r penderfyniad

Bydd yn ofynnol o hyd i benderfyniadau (mewn perthynas â'r cynigion y mae angen eu cymeradwyo neu benderfynu arnynt) gael eu gwneud a'u cyhoeddi'n ysgrifenedig, gan nodi'n glir y rhesymau dros y penderfyniad. Bydd yn ofynnol o hyd i benderfyniadau gael eu cyhoeddi'n electronig ar wefan y cynigiwr (os oes un ganddo) a gwefan yr awdurdod lleol perthnasol (os yw'n wahanol). Bydd yn ofynnol o hyd i'r cynigiwr roi gwybod i 'ymgynghoreion statudol' drwy lythyr neu e-bost fod yr hysbysiad o'r penderfyniad ar gael.

Hyd yr hysbysiad

Dim ond am gyfnod penodol o amser, nad yw'n fwy na mis, y bydd hysbysiadau a wneir o dan Ddeddf 2020 yn gymwys. Gall Gweinidogion Cymru ganslo hysbysiad drwy gyhoeddi hysbysiad canslo, a all gynnwys darpariaethau trosiannol neu arbed. Nid yw diwedd y cyfnod o fis na'r broses o ganslo hysbysiad arall hysbysiad arall rhag cael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth.

Mae'r hysbysiad hwn yn weithredol rhwng 25 Mehefin a chaiff ei adolygu'n fisol.

Mae Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 yn gwneud darpariaeth drosiannol fel bod yr addasiadau uchod yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r hysbysiad dod i ben mewn perthynas ag ymgynghoriad lle mae'r cyfnod ymgynghori neu'r cyfnod gwrthwynebu ar agor unrhyw bryd yn ystod y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad.

Adroddiadau Gwrthwynebu

Bydd yn ofynnol o hyd i gynigwyr gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu a'u hymateb ar eu gwefan, sicrhau bod copïau caled ar gael ar gais a rhoi gwybod i 'ymgynghoreion statudol' drwy lythyr neu e-bost fod yr Adroddiad Gwrthwynebu ar gael.

Hysbysiad o'r penderfyniad

Bydd yn ofynnol o hyd i benderfyniadau (mewn perthynas â'r cynigion y mae angen eu cymeradwyo neu benderfynu arnynt) gael eu gwneud a'u cyhoeddi'n ysgrifenedig, gan nodi'n glir y rhesymau dros y penderfyniad. Bydd yn ofynnol o hyd i benderfyniadau gael eu cyhoeddi'n electronig ar wefan y cynigiwr (os oes un ganddo) a gwefan yr awdurdod lleol perthnasol (os yw'n wahanol). Bydd yn ofynnol o hyd i'r cynigiwr roi gwybod i 'ymgynghoreion statudol' drwy lythyr neu e-bost fod yr hysbysiad o'r penderfyniad ar gael.

Hyd yr hysbysiad


Dim ond am gyfnod penodol o amser, nad yw'n fwy na mis, y bydd hysbysiadau a wneir o dan Ddeddf 2020 yn gymwys. Gall Gweinidogion Cymru ganslo hysbysiad drwy gyhoeddi hysbysiad canslo, a all gynnwys darpariaethau trosiannol neu arbed. Nid yw diwedd y cyfnod o fis na'r broses o ganslo hysbysiad arall hysbysiad arall rhag cael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth.

Mae'r hysbysiad hwn yn weithredol rhwng 25 Mehefin a chaiff ei adolygu'n fisol.

Mae Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Diwygio Paragraff 7 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 yn gwneud darpariaeth drosiannol fel bod yr addasiadau uchod yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r hysbysiad dod i ben mewn perthynas ag ymgynghoriad lle mae'r cyfnod ymgynghori neu'r cyfnod gwrthwynebu ar agor unrhyw bryd yn ystod y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad.

| | |
|--------------------------|------------------------------|
| Cyhoeddwyd gyntaf | Diweddarwyd ddiwethaf |
| 3 Gorffennaf 2020 | 3 Gorffennaf 2020 |

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

 Rhannu'r dudalen hon

 Nôl i dop y dudalen